

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig



Adroddiad Cyngor Ysgol 2011/12

Dyma grynodedb o drafodaethau, penderfyniadau a gwaith arall y Cyngor Ysgol dros y flwyddyn 2011/12.

Bu 2011/12 yn flwyddyn weithgar iawn i'r Cyngor, gyda nifer o faterion pwysig iawn yn dod ger ein bron i'w hystyried. Cydweithredodd yr aelodau yn dda iawn, gyda nifer o drafodaethau aeddfed yn cael eu cynnal gan ddisgyblion o bob oedran; dengys hyn gwir gynrychiolaeth y Cyngor ei hun, a'i allu i gynrychioli llais pob disgybl o bob blwyddyn ysgol. Braff yw cael gweld ei lwyddiannau dros y flwyddyn hon.

Y Ffreutur

Mae'r ffreutur wedi parhau i fod yn destun trafodaeth yn ystod y flwyddyn. Ym mis Medi 2011 ystyriwyd y prisiau gan y Cyngor Ysgol gan awgrymu talgrynnu i fyny rhai prisiau a gostwng eraill e.e.codwyd pris sudd o 68c i 70c ond gostyngwyd pris darn o ffrwyth o 45c i 40c. Trafodwyd rhestr gyfan o brisiau. Soniodd staff y ffreutur am ymddygiad nifer fach o ddisgyblion nad oedd yn clirio i fyny ar eu hôl. Mi fydd y Cyngor Ysgol yn parhau i gydweithio gyda'r ffreutur i gadw golwg ar safonau gan gynnwys adolygu'r rhestr prisiau yn flynyddol.

Cafwyd ymweliad gan Dr Rhys Jones o Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Brifysgol Aberystwyth fel rhan o brosiect ymchwil i mewn i'r defnydd o bolisiau newid ymddygiad tuag at fyw yn iach. Ffocws y gwaith oedd edrych ar ddewisiadau disgyblion mewn ffreuturau Ysgol. Bu Penweddig yn rhan o'r ymchwil. Pwysleisiwyd yr angen i ail ddylunio ffreuturau i'w gwneud yn llai sefydliadol yr olwg ac i edrych yn fwy fel cafés. Yn ei adroddiad ymchwil mae Dr Rhys Jones yn cyfeirio at ddisgyblion Penweddig a'u hymgyrch i wella safon y bwyd yn eu ffreutur. Arwyddocâd hyn meddai Dr Rhys Jones yw y gall dinasyddion gael effaith ar bolisiau. Mae'n braff dweud ei fod yn cyfeirio at ymgyrch Penweddig gyda'r ffreutur fel esiampl o arfer dda iawn ar gyfer dinasyddion ar draws Cymru.

Ar y 4 Rhagfyr 2012 cynhaliwyd cyfarfod pwysig rhwng y Cyngor Ysgol a chwmni newydd Sodexo fydd yn cymryd drosodd rheolaeth y ffreutur o hanner tymor Chwefror 2013 ymlaen. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn. Mynegwyd consyrn am e.e. anghysondeb safon y bwyd, anghysondeb prisiau'r bwyd a'r diffyg defnydd o'r Gymraeg. Bwriad y cwmni newydd yw cynnal arolwg barn disgyblion dwywaith y flwyddyn gan gychwyn ym mis Ionawr 2013. Byddwn yn monitro'r ansawdd yn ofalus.

Cyfansoddiad y Cyngor Ysgol

Penderfynwyd yn gynnar yn nhymor yr Hydref 2011 ar reolau cyfansoddiad y Cyngor Ysgol sef dau gynrychiolydd o bob blwyddyn, cadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd o blith y 6ed dosbarth a'r is-swyddogion o blith ddisgyblion blynyddoedd 7-11.

Yn dilyn arolwg yr Ysgol ym mis Medi 2011, nododd yr arolygwyr bod y Cyngor Ysgol wedi canolbwyntio'n ormodol ar y ffreutur. **Barn y disgyblion oedd mai'r ffreutur oedd eu prif gonsyrn am yr ysgol.** Fodd bynnag, penderfynwyd ehangu a gwella'r cyfathrebu gyda gweddill yr Ysgol drwy:

- drefnu hysbysfwrdd
- adrodd yn ôl i'r Ysgol gyfan mewn gwasanaethau unwaith bob hanner tymor
- osod cofnodion ar yr hysbysfwrdd a gwefan yr ysgol

Trafod polisiâu

Polisi Dysgu ac Addysgu

Edrychwyd yn benodol ar bolisi Dysgu ac Addysgu yr Ysgol gan gymryd i ystyriaeth lais y disgybl. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Mr Ifan i edrych ar Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac ystyried blaenoriaethau'r Cyngor Ysgol ar gyfer y flwyddyn. Sylweddolodd y disgyblion bod ganddynt lais pwerus o fewn yr Ysgol. Cynhaliwyd nifer o sesiynau ar ddiwrnodau ABCh i edrych ar Lais y Disgybl gyda Mr Ifan a Mme Izri. Trafodwyd ymatebion y disgyblion yn fanwl iawn yng nghyfarfodydd y Cyngor Ysgol. Ffocyswyd ar yr hyn sy'n dda am yr Ysgol, yr hyn sydd yn iawn a'r hyn sydd angen ei newid. Yn sgil yr ymatebion, penderfynwyd cynnal arolwg barn drwy ddefnyddio Survey Monkey. Roedd yr arolwg yn cynnwys barn disgyblion am eu hoff ffyrdd o ddysgu yn ogystal â'u barn am faterion eraill.

Defnyddiwyd yr ymatebion i lunio polisi addysgu newydd yr Ysgol. (Y poster cylch sy'n cael ei arddangos ymhob ystafell ddosbarth)

Adroddwyd y canlyniadau i'r Ysgol gyfan mewn gwasanaeth ac i Gorff llywodraethol yr Ysgol.

Polisi Addysg Rhyw

Trafodwyd y polisi Addysg Rhyw gan awgrymu newidiadau i ddangos pa bynciau sy'n dysgu'r agweddau gwahanol gan osod y testunau fesul colofnau pynciol e.e. ABCh/Addysg Grefyddol/Bioleg. Penderfynwyd yn hytrach na defnyddio'r term homoffobia, byddai'r polisi yn cynnwys cyfeiriad at rywioldeb/ystyried hunaniaeth. Edrychwyd ar wersi enghreifftiol addysg rhyw 7-11 gan drafod pa mor addas oeddent. Mae copi o bolisi Addysg Rhyw yr Ysgol ar wefan yr Ysgol.

Polisi Gwrth-Fwlian

Bu disgyblion blwyddyn 8 yn ystyried polisi gwrth-fwlian yr Ysgol gan awgrymu fersiwn disgybl-gyfeillgar. Bydd y disgyblion yn ail-edrych ar hwn ar y diwrnod ABCh nesaf ar 24 Ionawr 2013. Caiff hyn ei drafod yn fuan ar draws yr Ysgol.

Cynllun *Let's Grow*

Am yr ail flwyddyn yn olynol bu'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco yn cydweithio i annog disgyblion a'u rhieni i gymryd rhan yn y cynllun *Let's Grow* gan Morrisons sydd yn darparu offer garddio i ysgolion Prydain. Anfonwyd llythyr at rieni i ofyn am dalebau, a derbyniwyd dros 4,900 ohonynt. Mae'r archeb bellach wedi eu hanfon; bwriedir defnyddio'r offer yn ardal y cwad i dyfu planhigion a llysiau. Diolch i'r pwyllgor ECO am eu holl waith yn casglu ac yn cyfri'r talebau!

Angharad Williams

Ar ddiwedd fis Tachwedd 2011 yn drist iawn, bu farw un o'n disgyblion. Roedd Angharad Williams yn adnabyddus iawn i bawb yn yr Ysgol ac yn gymeriad unigryw. Wedi llawer o drafodaeth ac ymgynghori gyda theulu Angharad, cytunwyd ar fosaig byddai'n cael ei osod ar wal Canolfan Adnoddau yr Ysgol ble hoffai Angharad dreulio llawer o'i hamser yn darllen. Cynlluniwyd y mosaic gyda Tomos, brawd Angharad, a Pod Clare sy'n arbenigo mewn mosaics. Cafodd bawb yn yr Ysgol y cynnig i gymryd rhan, gwerthwyd cacennau gan y Cyngor Ysgol, trefnodd y staff fore coffi a chynhaliwyd diwrnod dillad ein hunain. Codwyd £770 tuag at yr achos.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym mis Tachwedd 2012 i gofio am Angharad ac i ddadorchuddio'r mosaic.



Cwrdd gyda Chynghorau Ysgol eraill

Ym mis Hydref 2012, aeth y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco i adeilad Penmorfa yn Aberaeron i gymryd rhan mewn gweithdy ar y cyd gyda 5 ysgol arall. Edrychwyd ar rôl Cyngor Ysgol a rôl swyddogaethau gwahanol o fewn y Cyngor. Braf oedd cwrdd ag ysgolion eraill a chymharu syniadau. Yn sgil y gweithdy, enillwyd gwobr arian ond nodwyd yn y llythyr roedd y Cyngor Ysgol yn agos iawn at ennill y wobwr Aur. Mae hyn yn gam mawr ymlaen inni.

Dyma lun ohonom gyda'r ysgolion eraill yn y siambr ym Mhenmorfa.



Dyma restr o aelodau'r Cyngor Ysgol am y flwyddyn 2012/13:

Cadeirydd: Sam Ebenezer Bl. 13

Is-gadeirydd: Siriol Dafis, Bl. 11

Ysgrifennydd: Megan Turner Bl.13

Is-ysgrifennydd: David Michael, Bl. 10

Trysorydd: Ieuan Griffiths Bl.13

Is-drysorydd: Tomos Watson Bl. 11

Blwyddyn 7: Guto Lewis a Mali Lewis (efeilliaid)

Blwyddyn 8: Daniel MacDonald a Nerys Davies

Blwyddyn 9: Guto Havard/Daniel Davies/Cati Fychan/ Ffion Wyn

Blwyddyn 10: David Michael a Gwennan Evans

Blwyddyn 11: Siriol Dafis a Tomos Watson

Yn absennol o'r llun mae Ieuan Griffiths, blwyddyn 13.



Adroddiad 2011-2012 Pwyllgor Eco Ysgol Penweddig
Aelodau'r Pwyllgor

Dewi Davies
Erin Gruffudd
Dylan Griffiths
Wil Rees
James Michael
Lewis Morgans
Caredig ap Tomos
Owain Gruffudd
Ieuan Griffiths



Gofynnwyd ar gychwyn y flwyddyn am gynrychiolwyr o blith disgyblion i fod ar y Pwyllgor Eco. Mae'r pwyllgor yn cwrdd gyda'r CY ond hefyd yn cwrdd ar liwt ei hunan pan fo angen.

Bu 2011/2012 yn flwyddyn prysur iawn i'r Pwyllgor gan symud ymlaen ar nifer o faterion Ysgol gyfan.

Cytunwyd ar Gôd Eco newydd a chaiff hyn ei arddangos o gwmpas yr Ysgol.

CÔD ECO

Ceisiwch ddod i'r ysgol mewn ffordd fwy ecogyfeillgar.

Gwnewch ddewisiadau call ac iachus ynglŷn â bwyd a'ch ffordd o fyw.

Cadwch ymwybyddiaeth ynglŷn â phobl mewn gwledydd eraill - Masnach Deg.

Gwnewch dir yr ysgol yn le mwy hapus.

Defnyddiwch cyn lleied o adnoddau â phosib.

Safiwch ynni, safiwch y byd.

Mae dŵr fel aur - peidiwch â'i wastraffu.

Camau Eco Ysgol

Yr hyn a gyflawnwyd hyd at fis Rhagfyr 2011):

- System ail-gylchu papur ymhob ystafell ddosbarth
- Biniau poteli plastig ystafell 6ed ac ystafell staff a'r rhodfa
- Biniau caniau drwy'r adeilad
- Cafodd y Cyngor Ysgol wared ar y losin yn y peiriannau gwerthu ar y stryd
- Arwyddion ym mhob ystafell ddosbarth i ddiffodd golau
- Certris inc yn cael eu casglu gan Gymdeithas y Cyfeillion (PTA)
- Hen ffonau symudol yn cael eu casglu gan y Cyfeillion (PTA) ac yn cael arian amdanynt
- Tapiau dŵr wedi eu hamseru i'w diffodd ar ôl rhai eiliadau
- Y ffreutur yn monitro gwastraff bwyd
- Datblygiad y Quad a'r meinciau picnic
- Y ffreutur wedi archebu biniau ailgylchu

Dyma rai o'n trafodaethau fel Pwyllgor Eco yn benodol a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn 2011-2012:

Talebau Morrisons- Gweler cofnodion y Cyngor Ysgol a'r pwerbwynt gwasanaeth Gwelyau planhigion ar gyfer y quad - dau wedi eu harchebu
Wedi plannu 2 goeden afalau ar dir yr ysgol

Wedi dynodi ardal ac wedi cael cytundeb y cwmni sy'n rhedeg yr Ysgol i sefydlu gardd y tu allan i Beca 1.

Wedi cael cytundeb y cwmni i osod mwy o finiau y tu allan i'r ysgol

Biniau ailgylchu ffreutur labeli wedi eu gwneud

Bl 9 - Dylunio Labeli

Bl 7 -Taflen Lamineiddo yn sownd i'r bin

Sbwriel yn y ffreutur - posteri sbwriel yn y bin gan Lewis ac wedi codi ymwybyddiaeth am sbwriel yn y gwasanaeth

Llythyron - Dim llythyron papur i'r rhai sy'n cael e-bost
Papur i rai sydd ddim yn cael e-bost
Llythyron i bob teulu (ar wahân hawl)

Papur - cyfyngiad ar faint mae disgyblion yn medru argraffu

Tapiau - Trwsio'r rhai sydd ddim yn gweithio - Siarad â John Hopkins (Dewi ac Erin)

Hysbysfwrdd - 1/4 i eco, lluniau o welliant/gwaith - Allwedd gan John Hopkins

Cyfrifiaduron - mynd i 'gysgu' i arbed egni (ar ôl 5 munud)

Golau - Athrawon i ddiffodd golau yn eu hystafelloedd-angen cyhoeddiad i'r athrawon

Gwasanaeth - Cynhaliwyd gwasanaeth i ddangos lluniau'r problemau gyda sbwriel i ddisgyblion

Trafodaethau diwedd

- Parhau i wella'r cyfathrebu (blwch syniadau)
- Sut mae bechgyn yn dysgu orau?
- Clybiau gwyddoniaeth/maths?
- Nofio 5x60?
- Gwisg ysgol
- Cais gan flwyddyn 11 i gael mynd i'r dre amser cinio
- Penderfyniad-Meinciau yn y cynteddau

Eich Cyngor Ysgol chi!

Gwnewch wahaniaeth i'ch ysgol!

Cysylltwch gyda'ch cynrychiolydd blwyddyn neu ebostiwch y Cyngor Ysgol ar.....

cyngorysgol@penweddig.ceredigion.sch.uk

Adfywio Aberystwyth Regeneration

Ymgynghoriad yn Neuadd Ysgol Penweddig

Consultation at Ysgol Penweddig Hall

23 Ionawr / 23 January 2013, 1:30pm - 3:30pm

Pobl ifanc yn cynrychioli:
Young people representing:

Urdd
Gobaith
Cymru

Cyngor
Ysgol
Penglais

Tîm Plant
Anabl

Cyngor
Ysgol
Penweddig

DASH
Disabled
and Self
Help

Clybiau
Ffermwyr
Ifanc

GUS
Give Us
Support

Prosiect Canolfan Ieuencid
The Youth Centre Project

Themau i'w trafod:

- a. Lleoliad
- b. Cyfleusterau
- c. Gweithgareddau
- d. Defnydd (amserau)
- e. Aelodaeth (cofrestru)
- f. Gwasanaethau cefnogol

Themes to be discussed:

- a. Location
- b. Facilities
- c. Activities
- d. Usage(hours)
- e. Membership
(registration)
- f. Support services